



ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGHORYDD
CYNGOR BRO MORGANNWG – MAI 2025 - MAI 2026

Enw'r Cynghorydd	Ian Johnson	Grŵp	Plaid Cymru
Ward	Buttrills	Dyddiad Etholwyd Ddiwethaf	Mai 2022

Swyddi yn y Cyngor / Aelodaeth Pwyllgor (Mai 2025 - Mai 2026)

Arweinydd Grŵp Plaid Cymru
Cyngor Llawn
Panel Rhianta Corfforaethol
Craffu Adnoddau
Gwasanaethau Democrataidd (Cadeirydd)
Is-bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Cynllunio
Pwyllgor Penodi Uwch Reolwyr

Rwyf heddyd yn aelod o, ac yn cyfrannau at waith y cyrff allanol canlynol, Cryff Llywodraethu Ysgolion a Phartneriaethau:

Cynrychiolydd y Cyngor

Ymddiriedolwr Cymdeithas Gymunedol Gerddi Alexandra

Arall (e.e. capasiti CLILC)

Aelod o Gyngor Tref y Barri
Cadeirydd Pwyllgor y Barri sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang, yng Nghyngor Tref y Barri
Gwirfoddolwr Gŵyl Gelfyddydau'r Barri
Golygydd cylchgrawn diwrnod gêm Clwb Pêl-droed Unedig Tref y Barri

Gweithgarwch Etholaethol a Chyflawniadau

Dyma'r bedwaredd flwyddyn o'r tymor hwn o'r cyngor, ac rwyf wedi parhau yn fy rôl fel Arweinydd Grŵp Plaid Cymru, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac aelod o'r Pwyllgor Craffu Adnoddau, y Pwyllgor Cynllunio, y Pwyllgor Penodiadau Uwch Reolwyr a'r Panel Rhianta Corfforaethol.

Trwy gydol y flwyddyn, rwyf wedi bod yn weithgar yn siambr y pwyllgor ac yn y gymuned ehangach, gan roi cymorth i drigolion yn fy rôl fel cynrychiolydd lleol a hefyd ymgysylltu â grwpiau cymunedol.

Yn anffodus, mae angen i mi gysylltu â thîm Gwasanaethau Cyndogaeth y Cyngor yn rheolaidd i roi gwybod am dipio anghyfreithlon yng nghanol y dref, yn enwedig mewn lonydd gwasanaethau. Rwy'n falch o allu cynorthwyo'r gwasanaeth Strydlun newydd sy'n anelu at gadw'r lonydd hyn yn glir yn fwy rheolaidd.

Rwyf hefyd yn falch bod Cyngor y Fro wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r bwriad i gau maes parcio aml-lawr Court Road, a fyddai'n effeithio'n negyddol ar Ysgol Gynradd Holtwn yn ogystal â busnesau lleol yn ardal Heol Holtwn.

Ar ôl cefnogi'r cynnig i droi'r Hen Gae Hoci ar Heol y Coleg yn Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur, mynychais gyflwyniad ac ymweliad safle gydag Ysgol Sant Curig a mwynheais sesiwn wirfoddoli yno gyda Phartneriaeth Natur Leol y Fro lle buom yn cael gwared â rhywogaethau goresgynnol anfrodorol o'r safle.

Mewn dadleuon yn y Cyngor Llawn, ym mis Gorffennaf mynegais fy mhryder am gynigion Parc Dŵr Cosmeston, ac, ym mis Medi, siaradais o blaid Cenedl Noddfa Cyngor y Fro sy'n helpu i integreiddio ceiswyr lloches i'r gymuned leol.

Ym mis Rhagfyr, siaradais yn ystod y ddadl ar dyfu'r nifer o dai yn y Barri a'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd, gan gynnig i dynnu'r cynigion yn ymwneud â Chroes Weycock o'r cynllun – cynnig a drechwyd gan un bleidlais.

Yna, ym mis Mawrth, siaradais a phleidleisiais yn erbyn y cynnig i gynyddu'r dreth gyngor 6.5%, y lefel uchaf o gynnydd yng Nghymru eleni, gan nodi'r cynnydd yn grant i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru ar ôl i Blaid Cymru ddod i gytundeb i gynyddu cyllid llywodraeth leol.

Rwyf wedi tynnu sylw at yr angen parhaus i wella cyfleusterau yng Nghanolfan Chwaraeon Colcot, gan gynnwys adroddiad i'r Pwyllgor Byw'n Dda (Mai 2025) a chwestiwn i'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2026.

Rwy'n falch bod y sefyllfa gynllunio o ran y llosgydd yn Nociau'r Barri wedi dod i ben gyda gwaith i ddymchwel rhan fawr o'r safle.

Fel aelod o Bwyllgor Adnoddau'r Cyngor, rwyf wedi bod yn rhan o ddwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen a fu'n adrodd eleni, gan ganolbwyntio ar werth a chaffael cymdeithasol, a sut orau i fynd i'r afael â chamwybodaeth yn y byd cyhoeddus.

Rwyf wedi cefnogi Cymdeithas Gymunedol Gerddi Alexandra i ddatblygu cais grant llwyddiannus ar gyfer cyfleusterau gwell, gan gynnwys gwell diogelwch ac offer clyweledol, sy'n cael ei gwblhau ym mis Mai 2026.

Yn ystod y flwyddyn, rwyf wedi mynychu gweithdai a sesiynau briffio yn rheolaidd ar raglen 'Eich Lle / Eich Lle' gan y cyngor sy'n canolbwyntio ar gymdogaethau, gan gynnwys un yn fy ward, sydd yn y 10% uchaf o amddifadedd yng Nghymru, yn ôl

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC).

Y tu allan i Gyngor y Fro, rwy'n parhau i wasanaethu fel Cyngorydd Tref y Barri, lle rwy'n cadeirio Pwyllgor Barri Cyfrifol yn Fyd-eang, ac yn ddirprwy gadeirydd y Pwyllgor Staff.

Rwy'n ysgrifennu am glwb pêldroed Tref y Barri yng nghylchgrawn diwrnod gêm y clwb a phapurau newydd lleol, ac yn helpu Gŵyl Gelfyddydau'r Barri i gynnal digwyddiadau, gan gynnwys yn Eglwys y Santes Fair yn fy ward.

Dysgu a Datblygu

DYDDIAD	BRIFFIO / HYFFORDDIANT A GYNHALIWYD	GORFODOL
14.05.25	Sgiliau Cadeirio a Chod Ymddygiad Aelodau CLLC	Nac
25.06.25	Gweithdy Aelodau CLLC	Nac
25.06.25	Gweithdy Arweinyddiaeth Gymunedol Flaengar CLLC	Nac
01.07.25	Digwyddiad EXPO Aelodau	Nac
10.11.25	Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd	Nac
12.11.25	Sesiwn Briffio'r Pwyllgor Cynllunio	Oes
03.12.25	Hyfforddiant Cod Ymddygiad i Aelodau - Adfywio	Oes
15.12.25	Crynodeb i Aelodau: Cyllideb a Chaffael	Nac
26.01.26	Crynodeb i Aelodau: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru	Nac
09.02.26	Crynodeb i Aelodau: GVS	Nac
23.02.26	Hyfforddiant Rheoli'r Trysorlys	Nac
11.03.26	Datblygu Aelodau: Cydlyniant Cymunedol	Nac

Blaenoriaethau ar gyfer y Flwyddyn I Ddod

- Parhau i gefnogi buddsoddiad mewn gwelliannau i Heol Holton, parciau lleol a Parhau i ddarparu gwasanaeth ymatebol i drigolion lleol
- Sicrhau buddsoddiad mewn gwasanaethau lleol i gefnogi anghenion pobl leol
- Parhau i graffu ar benderfyniadau'r cabinet a'r cyngor i ddarparu gwasanaethau effeithiol sy'n darparu ansawdd a gwerth am arian

Llofnod y Cyngorydd: Ian Johnson

Dyddiad: 26.05.2026